

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Tachwedd 5ed 2013

Presennol: Huw Antur (Cadeirydd), Dewi Jones (is gadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, Cyngorydd Gwynedd, Bethan Edwards, Swyddog Ariannol, Lis Puw, Clerc

- 1210 Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Arwel Lloyd Jones ac Alwyn Roberts.
- 1211 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 1212 Nid oedd neb yn datgan buddiant; trafodwyd y drefn o wneud ceisiadau am oddefeb a datganiadau rhoddion a lletygarwch.
- 1213 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Hydref 1af 2013.
- 1214 Nid oedd materion yn codi o gofnodion Hydref.
- 1215 Derbyniwyd cofnod o gyfarfodydd safle 4/10/13 a 10/10/13 parthed goryrru. Cytunwyd i atgoffa'r Swyddogion Dylan Wynn Jones a Iolo Tegid o'r pwyntiau a godwyd wrth ddiolch iddynt am ymweld, ac i dynnu sylw Pennaeth Ysgol O M Edwards at yr hyn a drafodwyd. Cytunwyd i barhau i bwysu am oleuadau sy'n fflachio'r cyflymder. Fel rhan o weithredu'n lleol i wella gwelediad, cytunodd Catrin Roberts i dynnu sylw'r perchennog at y tyfiant wrth feudy Cefn Prys, a'r Clerc i dynnu sylw swyddogion Aionon at y tyfiant wrth y maes parcio. Cytunwyd i anfon at Gan Bwyll i ofyn am bresenoldeb achlysurol, yn arbennig yn yr haf, gan roi sylw arbennig i drafnidiaeth o gyfeiriad Dolgellau. **Gweithredu: Catrin Roberts, Clerc**
- 1216 Derbyniwyd Cofnod o gyfarfod 17/10/13 parthed Tenantiaeth Fflatiau, cofnod cyfarfod ar y cyd gyda Sylfeini ar 29/10/13 a gohebiaeth oddi wrth Cymdeithas Tai Clwyd a Chartrefi Cymunedol Gwynedd. Cyfeiriodd CTC at y bwriad o drosi Tŷ Aran yn ôl i un annedd. Trafodwyd cynnwys holiadur i drigolion y gymuned am eu hanghenion o ran cartrefi a chymorth y Cyngorwyr ar ddsbarthu'r Holiadur. Enwebwyd Arwel Lloyd Jones a'r Cadeirydd i gynrychioli barn tenantiaid pe byddid angen tystio mewn llys barn am ymddygiad gwrthgymdeithasol. **Gweithredu: Cyngorwyr**
- 1217 Rhoddodd y Cyngorydd Sir adroddiad ar waith y mis a soniodd yn benodol y gallasai codi'r dreth ar berchnogion o du allan i Wynedd ar eu tai haf ddod ag incwm o filiwn o bunnau'r flwyddyn i goffrau'r Sir. Byddai hyn yn hynod werthfawr i Gyngor Gwynedd sydd yn dioddef lleihad o 4% yn y setliad diweddaraf. Cytunwyd i ofyn i Parc Cenedlaethol Eryri ganiatáu i Alan Jones Evans siarad ar ran y Cyngor yn cefnogi cais NP5/71/439A i gadw camera ar bolyn yn Ysgol O M Edwards. **Gweithredu: Clerc**
Diolchwyd i'r Cyngorydd Sir am ei waith.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

1218 Derbyniwyd adroddiad y Clerc parthed hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad a gynhaliwyd yn Nolgellau ar 16/10/13.

1219 Materion Eiddo'r Cyngor

- i. Safle lloches bws plant Ysgol y Berwyn – adroddodd Alan Jones Evans iddo gael sgwrs bositif iawn gyda'r preswylwyr dros ochr y clawdd, ac y gellid gosod lloches 1 meter o led ar y safle. Cytunwyd i **Alan Jones Evans, Karl Jones ac Alwyn Roberts** ddewis lloches addas i'r safle.
- ii. Toiledau - mae arwydd newydd wedi ei osod yn gwahodd cyfraniad ariannol gan ddefnyddwyr. Mae'r Clerc a'r Cynghorydd Sir wedi trafod eto gyda'r Adran Eiddo yng Nghyngor Gwynedd er mwyn symud ymlaen gyda phrynu'r adeilad. Mae'r cais am dalu'r dreth wedi ei dynnu'n ôl hyd nes bod mater perchnogaeth wedi ei ddatrys.
- iii. Llwybr y Fynwent Newydd – cytunwyd nad ydyw'r tywydd yn ffafriol ar hyn o bryd i wneud y gwaith yn iawn.

1220 Materion ariannol

- i Derbyniwyd adroddiad y Swyddog Ariannol am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf
- ii Awdurdodwyd talu biliau'r mis, a bil trydan y toiledau pan ddaw'r un diwygiedig.
- iii Cytunwyd i ystyried lleihau'r risg ariannol i'r Cyngor Cymuned yng nghyfrifon y Fynwent yn y cyfarfod nesaf.
- iv Cytunwyd i ystyried Swydd-ddisgrifiad Clerc y Fynwent yn y cyfarfod nesaf.

1221 **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned** – nid oedd mater wedi ei anfon ymlaen llaw at y Clerc.

1222 **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniodd am y gwahoddiad yn y wasg leol i adeiladwyr lleol dendro am y gwaith yng Nghanolfan Henblas, arwyddo prydles Canolfan Henblas, Mari Williams yn cychwyn ar y gwaith o hybu a marchnata, Lindsey Ellis Edwards yn parhau i ymgeisio am fwy fyth o grantiau, a'r hyfforddiant diweddar i'r Cyfarwyddwyr. Mae Partneriaeth Penllyn wedi cael gwahoddiad i annerch Fforwm Ardal Cynghorwyr Meirionnydd.

1223 Gohebiaeth:

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- i Cadarnhawyd cymeradwyo Cais NP5/71/439A am gadw camera ar bolyn yn Ysgol O M Edwards.
- ii Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd Cais NP5/71/LB43D, sef gwaith ar Prys Mawr.

2 Gwynedd:

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Ymatebodd y Clerc ac ambell i Gynghorwr yr ymgynghoriad parthed trethi ail gartrefi.

Derbyniwyd newyddlen Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd.

Rhodddwyd ystyriaeth i Brosiect Cyngor Gwynedd parthed halenni llwybrau a chytunwyd i ddatgan diddordeb a gofyn am fwy o wybodaeth. **Gweithredu: Clerc**

3 Heddlu:

Derbyniwyd gwybodaeth am ymgyrch yn erbyn ffonio wrth yrru a'r ymgyrch gwisgo gwregys.

4 Llywodraeth Cymru:

Derbyniwyd gwybodaeth am grant at frechu moch daear.

Derbyniwyd e-newyddlen am Gyfoeth Naturiol Cymru a neges gan y Gweinidog am wariant ar yr amgylchedd ac ar atal llifogydd.

Derbyniwyd gwybodaeth ymlaen llaw am ymgynghoriad ar

- Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
- Cyflwyno system tabl prisio ar gyfer iawndal TB
- Gwahoddiad i ymgeisio am grant Rheoli Adnoddau Naturiol

5 Un Llais Cymru:

Derbyniwyd gwybodaeth am y Rhaglen Hyfforddiant gyda chyrsgiau newydd.

Derbyniwyd gwybodaeth am astudiaethau achos yr Ombwdsman.

Derbyniwyd gwybodaeth am ymdrechion Un Llais Cymru i wella'r gwasanaeth ffôn yng nghefn gwlad.

Ystyriwyd model diweddaraf o Reoliadau Ariannol a chytunwyd i'r swyddog Ariannol ei astudio ac adrodd yn ôl. **Gweithredu: Swyddog Ariannol.**

Derbyniwyd gwybodaeth am weithgareddau a drefnir gan y Llywodraeth i nodi cam mlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

6 Eraill:

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Dafydd Elis Thomas parthed parhau i ddarparu gwasanaeth bws yn yr ardal.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Ystyriwyd cais gan Gymdeithas yr Iaith am angen tai yn lleol. Cytunwyd nad oedd yn berthnasol i'r ardal hon sydd o dan reolaeth cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.

Nodwyd cais gan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am wirfoddolwyr.

Derbyniwyd llythyr gan Phil Edwards yn diolch am gyfraniad Cyngor Cymuned Llanuwchllyn i gofeb yn Fflandrys.

Ystyriwyd llythyr Pwyllgor y Neuadd a chytunwyd i gyfrannu £700 tuag at gostau rhedeg y neuadd. **Gweithredu: Swyddog Ariannol**

Ar gais Pwyllgor y Neuadd am farn y gymuned, trafodwyd yr egwyddor o ganiatáu gwerthu alcohol yn y neuadd yn achlysurol. Llesiyd sawl barn, ond y farn gyffredinol oedd nad oedd gwrthwynebiad pe byddid yn caniatáu i hyn ddigwydd yn achlysurol iawn a phe byddid yn mynnu rheolaeth gaeth. **Gweithredu: Clerc**

Derbyniwyd gwybodaeth gan y "War Memorials Trust" am grantiau a chyngor sydd ar gael er mwyn cynnal cofebion.

1224 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf – ni thrafodwyd.

Amser gorffen 10.00pm